Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Cilgerran
Cilgerran
Aberteifi
Sir Benfro
SA43 2SB

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran

Ysgol Gynradd dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Gynradd Cilgerran. Lleolir yr ysgol ym mhentref Cilgerran yng ngogledd Sir Benfro. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 114 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 13 oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion yn cael eu rhannu'n bump dosbarth.

Tua 7.6% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn llawer is na'r canran cenedlaethol (19%). Mae lleiafrif o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 26% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n fwy na'r canran cendlaeithol (21%). Mae ychydig iawn â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2014 a'r pennaeth cynorthwyol yn 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2013. Ers hynny, mae'r strwythur staffio wedi newid yn sylweddol ac mae pob aelod o'r staff addysgu a'r uwch dîm rheoli yn newydd i'r ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweiniad y pennaeth a'i weledigaeth glir yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Mae'r gweithdrefnau gwella ansawdd effeithiol wedi sicrhau cynnydd cyson yn nhaith wella'r ysgol. Mae'r ysgol yn driw iawn i'w nod cytûn o gerdded ymlaen law yn llaw, a gweithio mewn partneriaeth er mwyn annog pob disgybl ac aelod staff i gyrraedd ei lawn botensial. Mae'n darparu cyfleoedd ymestynnol i sicrhau bod pob disgybl yn cyfrannu'n llawn ac yn hyderus ddwyieithog yn y gymdeithas. Er bod lleiafrif y disgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cymharol isel yn y Gymraeg, mae'r ysgol yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn. Mae llais a hawl y disgybl yn ganolog i fywyd yr ysgol ac mae safonau lles ac agweddau'r disgyblion tuag at ddysgu yn gadarn iawn.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac o fewn y dosbarthiadau

A2 Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu'r ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A3 Gwella safon cyflwyniad ychydig o ddisgyblion ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei thaith wella i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau mathemategol yn debyg i'r disgwyl. Mae mwyafrif y disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol yn meddu ar fedrau Cymraeg sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir am eu hoed. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda, gan gynnwys y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae medrau llafar a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gadarn. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa addas. Mae'r rhan fwyaf yn esbonio'u gweithgareddau'n glir. Mae llawer yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da bob blwyddyn. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn trafod cynnwys eu llyfrau yn frwdfrydig gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau penodol yn briodol. Mae llawer yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn ac mae eu gwaith ar fôr ladron yn dangos eu bod yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio iaith ffurfiol lle bo'n briodol, er enghraifft wrth gyflwyno erthyglau newyddion. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau eraill ac yn trafod testunau amrywiol yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd o fewn y dosbarthiadau nac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn llithr ddarllen yn fedrus i gywain gwybodaeth o wahanol destunau, gan gynnwys y we, er enghraifft wrth greu adroddiad ar ddogni bwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae mwyafrif y disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn ysgrifennu storïau antur estynedig yn effeithiol ac yn dangos ymwybyddiaeth bwrpasol o'r gynulleidfa. Fodd bynnag, mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ychydig o'r disgyblion yn dueddol o fod yn flêr.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda o fewn y maes dysgu ac ar draws y cwricwlwm. Ym Mlwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o batrymau rhif a gwerth lle. Maent yn adio ac yn tynnu'n fedrus gan ddefnyddio degau ac unedau, ac yn dyblu neu'n haneru rhifau yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio unedau safonol i fesur yn gywir ac yn datrys problemau syml gan ystyried gwybodaeth ar graff bloc, er enghraifft wrth ddehongli hoff fwyd eu ffrindiau. Mae llawer yn defnyddio cyfesurynnau'n dda i leoli gwahanol nodweddion ar ynys ddychmygol i fôr ladron.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhifedd yn dda o fewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm ac mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n uchel. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod dda o strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau rhif sy'n mynd yn gynyddol anos. Mae dealltwriaeth gadarn gan lawer o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Mae rhan fwyaf y disgyblion

yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw casglu a chyflwyno canlyniadau ailgylchu mewn gwahanol wledydd gan ddefnyddio tablau a graffiau yn effeithiol. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o arwynebedd a pherimedr, er enghraifft wrth greu gwahanol ardaloedd mewn gardd goffa i'r Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn eu defnyddio'n bwrpasol. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn hyderus ar draws y meysydd dysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y maent yn creu graffiau i ddangos lliw gwallt disgyblion y dosbarth. Yn gyffredinol, mae medrau TGCh disgyblion yng ngweddill yr ysgol yn adeiladu'n briodol ar y sylfaen hon. Mae llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ymchwilio'n ddiogel ar y we ac yn cyflwyno'r wybodaeth yn dda. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y maent wedi ymchwilio i hanes yr Ail Ryfel Byd a chyflwyno gwybodaeth am bwysigrwydd plannu llysiau. Maent yn datblygu medrau pwrpasol i gynhyrchu a defnyddio cronfeydd data i ddadansoddi gwybodaeth a dilyn llwybrau ymholi penodol. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gymwys o sut i ddefnyddio taenlenni wrth fodelu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn hynod gwrtais â'i gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac mae'r plant hŷn yn cymryd gofal o rai iau yn naturiol iawn. Mae bron bob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod yn union at bwy i droi er mwyn derbyn cyngor neu gynhaliaeth pan fyddant yn poeni am rywbeth. Mae eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we yn gadarn. Maent yn ymwybodol iawn o anghenion eraill o fewn yr ysgol, yn lleol a thramor. O ganlyniad, maent yn codi arian a chyfrannu tuag at y banc bwyd lleol, elusennau iechyd cenedlaethol, ac anghenion eraill llai ffodus yn Romania.

Mae bron pob disgybl yn ymdrechu'n ddiwyd yn y gwersi ac yn cadw ar dasg yn gyson. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau estynedig ac yn cwblhau eu gwaith yn llwyddiannus. Nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriad ac maent yn barod i gynnig gwahanol ffyrdd i ddatrys problem wrth wneud arbrofion gwyddonol.

Mae llais y disgybl yn greiddiol i fywyd yr ysgol. Mae gwaith aelodau'r gwahanol bwyllgorau disgyblion yn dylanwadu'n effeithiol ar fywyd yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn arwain ar y dasg o esbonio hawliau plant yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn deall bod hawl ganddynt i gael eu trin yn gyfartal a bod hawliau a chyfrifoldebau ganddynt fel unigolion. Maent hefyd yn cael dylanwad ar sicrhau chwarae teg i bob disgybl a chyfoethogi eu profiadau adeg amser chwarae drwy drefnu rota chwarae pêl-droed a'r gysgodfan.

Mae'r pwyllgor eco yn weithgar iawn yn hybu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu. Enghraifft dda o hyn yw gwerthu nwyddau a grewyd ganddynt o bethau wedi'u hailgylchu yn ffair yr ysgol. Maent hefyd yn helpu cyd-ddisgyblion i ystyried pwysigrwydd tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol er mwyn hybu bwyta'n iach. Trwy elw gwerthiant y siop ffrwythau ac ysgytlaeth, mae'r pwyllgorau wedi llwyddo i brynu rhagor o offer chwaraeon i'w cyd-ddisgyblion fwynhau yn ystod yr awr ginio tra'n hybu ffitrwydd yr un pryd.

Mae rhan fwyaf y rhieni a disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i ymdrechion cyson yr ysgol a'r swyddog lles i gynyddu canrannau presenoldeb. O ganlyniad, mae presenoldeb disgyblion yn cynyddu'n flynyddol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol ac mae yna berthynas waith effeithiol rhwng y disgyblion a'r holl staff. Mae'r staff yn creu awyrgylch ddysgu gynhaliol ac ysgogol lle mae'r disgyblion yn awyddus i ddysgu. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob disgybl yn ymroi at waith yn llwyddiannus ac yn mentro rhoi cynnig ar heriau newydd. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae'r staff yn adnabod anghenion pob disgybl yn dda iawn. Maent yn ymateb yn bwrpasol i'w anghenion a'u diddordebau drwy baratoi gwaith wedi ei gynllunio ar gyfer gwahanol anghenion y disgyblion. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael ei herio'n llwyddiannus.

Mae gan yr athrawon i gyd ddisgwyliadau uchel. Maent yn sicrhau bod y disgyblion yn gwybod yn union beth sydd angen ei wneud i lwyddo trwy osod targedau unigol pwrpasol iddynt. Mae cyflwyniadau'r athrawon yn ddiddorol ac yn ennyn chwilfrydedd disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn holi disgyblion yn fedrus i ddatblygu eu dealltwriaeth ac asesu eu gwybodaeth. Mae pob aelod o staff yn fodelau iaith cadarn ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio digon o'r Gymraeg yn gyson o fewn y dosbarthiadau nac yn anffurfiol.

Mae adborth llafar yr athrawon a'r cymorthyddion yn fuddiol ac yn gwirio dealltwriaeth y disgyblion a'u herio. Mae pob athro yn rhoi adborth ysgrifenedig effeithiol i'r disgyblion, gan ddathlu cryfderau'r gwaith a nodi'n glir a sensitif unrhyw welliannau buddiol. Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o sut i wella'u gwaith, ac maent yn cael cyfle i wneud hyn yn gymharol gyson. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da.

Mae athrawon y cyfnod sylfaen yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus priodol, sy'n cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, ac ymarfer eu medrau corfforol a chreadigol o fewn y dosbarth a thu allan. Mae llawer o'r gweithgareddau yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud penderfyniadau a gweithio'n annibynnol. Mae ethos y cyfnod sylfaen yn treiddio hyd at ddiwedd y cyfnod a thu hwnt. Mae cynlluniau gwaith pwrpasol cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y profiadau blaenorol. Mae'r gweithgareddau'n cynnig profiadau buddiol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol ac yn bodloni'r gofynion statudol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n drwyadl i ddatblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth o weithgareddau diddorol i ddatblygu'r medrau hyn yn drawsgwricwlaidd ac yn ymateb yn llwyddiannus i anghenion disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau TGCh yn y cyfnod sylfaen yn gyflawn ac yn sicrhau bod disgyblion yn profi'r rhychwant o fedrau ac yn eu defnyddio'n bwrpasol ar

draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu a thrin data yng nghyfnod allweddol 2 yn dda, ond nid yw athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion greu a defnyddio taenlenni i bwrpas ar draws y cwricwlwm.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd pob disgybl yn erbyn disgwyliadau heriol yn effeithiol iawn ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynnig ymyraethau cynnar. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion sydd angen cefnogaeth llythrennedd a rhifedd yn derbyn mewnbwn pwrpasol ac effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl sy'n derbyn cynhaliaeth yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn cynnwys targedau realistig sy'n cefnogi'r unigolion hyn i wneud cynnydd da. Mae cymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol â'r athrawon i gefnogi unigolion a grwpiau drwy'r ysgol. Mae hyn yn cryfhau'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yno.

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau pwrpasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r berthynas ag asiantaeth allanol sy'n cynghori staff ar sut i osod targedau perthnasol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol. Mae'r bartneriaeth â rhieni'r ysgol yn sicrhau cydweithio buddiol er lles y disgyblion. Mae'r ysgol wedi ymateb i gais rhieni di-Gymraeg i sicrhau bod gwaith cartref dwyieithog yn cael ei osod fel eu bod yn deall y dasg ac yn gallu cefnogi dysgu eu plant gartref. Mae'r defnydd o Hwb yn help i bontio'n effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol gan fod rhieni'n gallu gweld gwaith eu plant ar eu cyfrifiadur a'u cynorthwyo i wella.

Mae pwyslais amlwg ar feithrin parch a chydraddoldeb ymysg pob un o randdeiliaid yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnal clybiau allgyrsiol wythnosol sy'n hyrwyddo iechyd, lles a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r clwb garddio llwyddiannus sy'n dysgu medrau newydd i'r disgyblion ac yn rhoi cyfle iddynt dyfu, cynhaeafu a gwerthu llysiau. Drwy hyn, mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae gweithgareddau fel wythnosau rhyngwladol, dyddiau di-wisg ysgol i gefnogi elusennau amrywiol, a chyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at bwyllgorau amrywiol, yn cyfrannu at ethos gofalgar a Christnogol yr ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu hannog i dyfu'n aelodau ymroddgar a gweithgar o gymuned yr ysgol.

Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd priodol i ymwneud â chlybiau amser cinio fel y clwb darllen a chlwb Hwb. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad medrau cymdeithasol llawer o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd da iawn i'r disgyblion ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n arwain at welliannau amlwg trwy waith y cyngor ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod llais y dysgwr yn amlygu ei hun yn gryf drwy'r ysgol. Enghraifft dda o hyn yw archebu pyst pêl-droed ar gyfer amser egwyl.

Mae safle'r ysgol yn lân ac yn ddiogel. Mae trefniadau trwyadl ar gyfer rheoli'r safle ac mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol ac yn meithrin diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus yn llwyddiannus. Mae ganddi weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, tra'n hyrwyddo hapusrwydd a lles disgyblion yn barhaus. Mae'n llwyddo i feithrin disgwyliadau uchel iawn ymhlith y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r arweinyddiaeth wedi sicrhau cynnydd cyson yn nhaith wella'r ysgol.

Mae'r pennaeth yn rhoi ffocws diflino ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth, drwy weithredu systemau rheoli grymus, sy'n sicrhau bod perfformiad yr ysgol a safon yr addysgu yn cael eu herio'n gyson. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon a chymorthyddion ddatblygu'n broffesiynol. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd cyson sydd i athrawon ddatblygu eu medrau addysgu drwy gymryd eu tro i gyd-arsylwi gwersi gyda'r pennaeth. Wedi cyd-arsylwi, maent yn trafod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn agored mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn datblygu eu medrau arwain ac yn eu galluogi i rannu arfer dda a chynorthwyo'i gilydd i wella mewn amgylchedd cynhaliol ond heriol. O ganlyniad, mae'r holl staff yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau gwelliant parhaus ac mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa o brofiadau dysgu dychmygus ac ysgogol sydd wedi arwain at wella'u cyrhaeddiad. Mae hyn wedi arwain at gysondeb, disgwyliadau uchel a chydweithio hynod effeithiol ymhlith staff sy'n annog disgyblion i ymdrechu'n dda a chadw ar dasg yn barhaus.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill gan roi cyfleoedd gwerthfawr i holl aelodau'r staff rannu profiadau ac arfer dda gydag eraill y tu hwnt i'r ysgol. Mae hyn wedi bod o gymorth arbennig i'r athrawon sydd newydd gymhwyso ac i sicrhau bod ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyson effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rhan allweddol i sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol i'r ysgol. Maent yn dadansoddi'r data eu hunain ac yn cymharu hyn â dadansoddiad y pennaeth a'r awdurdod lleol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg. Defnyddiant eu gwybodaeth fanwl am y data, a'u hadnabyddiaeth drylwyr o'r ysgol drwy eu hymweliadau monitro cyson, i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol a llwyddiannus. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at welliant yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gwella ansawdd yn rhan greiddiol a hynod effeithiol o'i gwaith. Mae wedi arwain at godi safonau disgyblion, gwella ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn sylweddol. Mae'r prosesau gwella ansawdd wedi eu sefydlu'n gadarn ar ganfyddiadau gweithdrefn fonitro effeithiol sy'n seiliedig ar fonitro cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion a gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Mae'r broses yn cynnwys holi barn disgyblion a'u rhieni a gweithredu'n uniongyrchol ar unrhyw sylwadau priodol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu sy'n deillio o'r prosesau gwella ansawdd yn amlygu'r rhinweddau a'r meysydd pwysig sydd angen eu gwella yn gywir, yn fanwl a chlir. Mae'r arweinwyr a'r athrawon yn trafod y meysydd sydd angen eu gwella yn fanwl cyn cynnwys y prif rai fel blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynlluniau datblygu yn fanwl, yn cynnwys targedau heriol, atebolrwydd clir ac

amserlen ymarferol.  Mae'r arweinwyr a'r athrawon yn monitro cynnydd yn ofalus a rheolaidd ac yn cyflwyno adolygiadau trylwyr sy'n adnabod cryfderau a diffygion yn effeithiol.  Mae'r gweithdrefnau hyn yn gynaledig ac yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella'n barhaus.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithlon i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes.  Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau ohono.  Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2017